Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |



| | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date:** | 05.02.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol: rheoliadau cychwynnol** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r egwyddorion a'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn gysylltiedig â chreu'r system gofrestru ar gyfer darparwyr addysg drydyddol.<br><br>O ran asesu ansawdd, sef y maes y mae gan Estyn ddiddordeb arbennig mewn ymateb iddo, rydym yn cytuno â'r egwyddor i'w gwneud yn ofynnol asesu ansawdd addysg uwch mewn cyfnod tebyg i'r rheoliadau ar gyfer arolygu addysg bellach a hyfforddiant / rhannau eraill o'r sectorau ôl-16. Bydd yr egwyddor yn creu cydnawsedd ar draws y sector addysg drydyddol.<br><br>Gan y bydd y system gofrestru ar gyfer addysg uwch yn weithredol o 2027-2028, byddai'n fuddiol i Estyn a'r Comisiwn ystyried cynnal adolygiad ar ganol y cylch yn 2026-2027 o'r trefniadau arolygu ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i gyfrif am ddiwygiadau neu newidiadau posibl i drefniadau asesu ansawdd ar gyfer y darparwyr cofrestredig o 2027-2028 ymlaen. Gallai hyn ddarparu cydnawsedd gwell o ran trefniadau a galluogi synergedd rhwng arolygu ac adolygiadau gwella ansawdd ar gyfer darparwyr cofrestredig. Byddai creu rheoliadau i alinio'r cyfnodau seibiant ar gyfer gwahanol rannau o'r sector ôl-16 yn cefnogi'r broses hon.<br><br>Mae'r system gofrestru yn darparu cyfle ar gyfer gwneud newidiadau i'r ffordd y mae Estyn yn arolygu darparwyr ar hyn o bryd. Mae ychydig o golegau addysg bellach sy'n sefydliadau a reoleiddir ar gyfer addysg uwch, a hefyd yn derbyn cyllid a chontractau Llywodraeth Cymru ar gyfer eu darpariaeth addysg bellach, eu prentisiaethau ac fel partneriaid mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Gallai'r Comisiwn ac Estyn gytuno / penderfynu ymgynghori ar drefniadau sicrhau ansawdd ac arolygu ar gyfer sefydliadau cofrestredig sy'n wahanol i'r trefniadau arolygu presennol ar gyfer darparwyr eraill mewn sectorau ôl-16. Efallai bydd goblygiadau o ran adnoddau i hyn, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer trefniadau sicrhau ansawdd ac arolygu yn y dyfodol. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Cwestiwn 1 – Rydym ni wedi rhoi teitl dros dro i'r categorïau cofrestru, sef "Craidd Addysg Uwch" a "Dewis Amgen i Addysg Uwch". Ydych chi'n cytuno â'r teitlau hyn, neu a oes gennych chi awgrymiadau eraill?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r teitlau awgrymedig hyn ac yn ystyried y byddai'n fuddiol, fel y nodwyd, i'r Comisiwn amlinellu'r manteision a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â chofrestru ym mhob un o'r categorïau. |

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno â'r wybodaeth awgrymedig y mae'n rhaid ei chynnwys o fewn cofnod darparwr yn y gofrestr? A oes unrhyw gynnwys arfaethedig y dylid ei ychwanegu neu'i ddileu o'r rheoliadau hyn?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dylai'r wybodaeth awgrymedig fod ar gael i'r cyhoedd ac ni ddylai achosi baich gweinyddol i gwblhau'r cofnod yn y gofrestr. |

**Cwestiwn 3** – Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys y ddau amod cychwynnol pellach arfaethedig yn y rheoliadau?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4** – A oes unrhyw amodau cychwynnol pellach eraill y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau, yn eich barn chi?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oes** | ☐ | **Nac oes** | ✓ | **Ansicr** | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5** – Ydych chi'n cytuno â'r amodau gorfodol parhaus pellach y cynigir eu cynnwys yn y rheoliadau?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6** – A oes unrhyw amodau gorfodol parhaus eraill y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau, yn eich barn chi?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oes** | ☐ | **Nac oes** | ✓ | **Ansicr** | ☐ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7** – Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau a gynigir ar gyfer adolygu penderfyniadau?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 8** - A oes unrhyw faterion heblaw'r rhai a restrir y dylid galluogi'r Comisiwn i'w gorfodi os caiff darparwr ei ddadgofrestru?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'n ymddangos bod hyn yn glir a chynhwysfawr ac ni allwn feddwl am unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â hyn. |

**Cwestiwn 9**

Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor i greu rheoliadau sy'n gofyn bod yn rhaid asesu ansawdd addysg uwch o leiaf bob chwe blynedd i gyd-fynd â'r gofynion statudol ar gyfer rhannau eraill o'r sector ôl-16 ac arfer bresennol CCAUC a amlinellir yn y fframwaith asesu ansawdd hwn?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r egwyddor i greu rheoliadau sy'n gofyn am asesu ansawdd addysg mewn cyfnod tebyg i'r rheoliadau ar gyfer arolygu addysg bellach a hyfforddiant / rhannau eraill o'r sectorau ôl-16, i fod yn gydnaws ar draws y sector addysg drydyddol. Y cyfnod |

| |
|---|
| seibiant ar gyfer arolygu darparwyr mewn addysg bellach a hyfforddiant, ac ar gyfer ysgolion, yn cynnwys dosbarthiadau chweched, fydd chwe blynedd (2024-2030).<br><br>Gan y bydd y system gofrestru ar gyfer addysg uwch yn weithredol o 2027-2028, byddai'n fuddiol ystyried adolygiad ar ganol y cylch yn 2026-2027 o'r trefniadau arolygu ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i gyfrif am ddiwygiadau neu newidiadau posibl i drefniadau asesu ansawdd ar gyfer y darparwyr cofrestredig o 2027-2028 ymlaen. Gallai hyn ddarparu cydnawsedd gwell o ran trefniadau a galluogi synergedd rhwng arolygu ac adolygiadau gwella ansawdd ar gyfer darparwyr cofrestredig. Byddai creu rheoliadau i alinio'r cyfnodau seibiant ar gyfer gwahanol rannau o'r sector ôl-16 yn cefnogi'r broses hon. |

**Cwestiwn 10** – Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw oblygiadau o ran adnoddau i'ch sefydliad yn deillio o'r rheoliadau neu'r system gofrestru?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r system gofrestru yn darparu cyfle ar gyfer gwneud newidiadau i'r ffordd y mae Estyn yn arolygu darparwyr ar hyn o bryd. Mae ychydig o golegau addysg bellach sy'n sefydliadau a reoleiddir ar gyfer addysg uwch, a hefyd yn darparu cyllid a chontractau Llywodraeth Cymru ar gyfer eu darpariaeth addysg bellach, prentisiaethau, ac fel partneriaid mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Gallai'r Comisiwn ac Estyn gytuno / penderfynu ymgynghori ar wahanol drefniadau sicrhau ansawdd ac arolygu ar gyfer sefydliadau cofrestredig sy'n wahanol i'r trefniadau arolygu presennol ar gyfer darparwyr eraill mewn sectorau ôl-16. Efallai bydd goblygiadau o ran adnoddau i hyn, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer trefniadau sicrhau ansawdd ac arolygu yn y dyfodol. |

**Cwestiwn 11** – A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth y gallem ei defnyddio i'n helpu i asesu costau a manteision rhoi'r system gofrestru arfaethedig ar waith?

| Oes | ☐ | Nac oes | ✓ | Ansicr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn** 12 – Heblaw am ddarparwyr AU a'r Comisiwn, a oes unrhyw randdeiliaid eraill sy'n debygol o wynebu costau yn deillio o'r system gofrestru, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? Os oes, rhowch fanylion am y rhanddeiliaid yn y sylwadau ategol.

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 13** – Ydych chi'n meddwl y gallai unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn gael effaith (gadarnhaol neu negyddol) ar unrhyw bobl â nodweddion gwarchodedig a gwmpesir gan y ddyletswydd gyffredinol o ran cydraddoldeb a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Os felly, sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 14** – A oes cwmpas ar gyfer unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 15** – A oes unrhyw effeithiau negyddol yn debygol o ddeillio o'r rheoliadau ar grwpiau penodol o bobl neu leoedd penodol? Os felly, sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ansicr | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 16** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai sefydlu'r gofrestr darparwyr addysg drydyddol yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

**Cwestiwn 17** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid yr ymagwedd arfaethedig at reoliadau ar gyfer sefydlu'r gofrestr darparwyr addysg drydyddol er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 18 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐